

Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â gwella cyflwr yr wyneb a'r croen gan ddefnyddio cyfarpar amledd uchel uniongyrchol, galfanig, adfywiwr cyhyrau trydan (EMS), micro-gerrynt, draenio lymffatig a micro-sgraffinio. Mae'n cynnwys y sgiliau sy'n gysylltiedig â chynnal ymgynghoriad trwyadl â'r cleient er mwyn trefnu cwrs penodol o driniaeth a deilwriwyd i anghenion cleient unigol. Mae angen y gallu i ddarparu cyngor ôl-ofal perthnasol hefyd.

Bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol gydol eich gwaith i gyflawni'r uned hon. Bydd angen i chi hefyd gynnal eich ymddangosiad personol a chyfathrebu'n dda â'r cleient.

Cynnwys yr uned:

- 1 Cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth roi triniaethau i'r wyneb â thrydan
- 2 Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau â chleientiaid
- 3 Cynnal triniaethau i'r wyneb â thrydan
- 4 Rhoi cyngor ôl-ofal

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth roi triniaethau i'r wyneb â thrydan

- P1 gosod a monitro'r ardal driniaeth yn unol â threfnau'r sefydliad a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
- P2 gwisgo cyfarpar gwarchod personol priodol, lle bo angen
- P3 sicrhau fod cyflwr yr amgylchedd yn addas ar gyfer y cleient a'r driniaeth
- P4 sicrhau fod eich hylendid personol, eich dulliau gwarchod a'ch ymddangosiad yn unol â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
- P5 diheintio eich dwylo'n effeithiol cyn y driniaeth
- P6 sicrhau fod eich osgo a'ch lleoliad eich hun wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
- P7 sicrhau eich bod yn glanhau'r holl **offer a'r cyfarpar** gan ddefnyddio'r dulliau cywir
- P8 gosod **offer a chyfarpar** a chynhyrchion mewn modd sy'n rhwydd ac yn ddiogel i'w defnyddio
- P9 sicrhau fod y cleient mewn sefyllfa gyfforddus ac ymlaciol sy'n addas ar gyfer y driniaeth
- P10 cynnal arferion hylendid a diogelwch derbyniol y diwydiant gydol y gwasanaeth
- P11 defnyddio dull cadarnhaol, cwrtais a chalonogol â'r cleient gydol y driniaeth
- P12 cynnal gwedduster, preifatrwydd a chysur y cleient bob amser
- P13 cadw llygad ar les y cleient yn rheolaidd yn unol â pholisi'r sefydliad
- P14 cael gwared â deunyddiau gwastraff yn ddiogel ac yn gywir
- P15 sicrhau fod y driniaeth yn gost effeithiol a'i bod yn cael ei gwneud o fewn amser sy'n fasnachol ymarferol
- P16 sicrhau fod cardiau cofnodion y cleient wedi eu diweddarau, eu bod yn gywir, yn gyflawn, yn rhwydd i'w darllen ac wedi eu llofnodi gan y cleient a'r ymarferydd
- P17 gadael yr ardal driniaeth, yr **offer a'r cyfarpar** mewn cyflwr priodol ar gyfer triniaethau yn y dyfodol.

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau â chleientiaid

Rhaid i chi allu:

- P18 defnyddio **technegau ymgynghori** mewn modd cwrtais a chyfeillgar er mwyn pennu anghenion triniaeth y cleient
- P19 gwneud yn siŵr eich bod yn cael cydsyniad gwybodus wedi'i arwyddo gan riant neu warcheidwad ar gyfer plant dan oed cyn unrhyw driniaeth
- P20 gwneud yn siŵr fod riant neu warcheidwad yn bresennol gydol y driniaeth i'r wyneb â thrydan ar gyfer plant dan 16 oed
- P21 cael cydsyniad gwybodus, ysgrifenedig wedi'i arwyddo gan y cleient cyn cynnal y driniaeth

- P22 esbonio'n eglur wrth y cleient yr hyn y mae'r driniaeth yn ei olygu mewn modd y gall ei ddeall
- P23 annog cleientiaid i ofyn cwestiynau er mwyn gwneud unrhyw bwyntiau'n gliriach
- P24 gofyn cwestiynau priodol i'ch cleient er mwyn nodi eu hanes meddygol, **y math o groen** sydd ganddynt, beth yw **cyflwr y croen** a phatrwm eu ffordd o fyw
- P25 gofyn cwestiynau priodol i'ch cleient er mwyn nodi a oes ganddynt unrhyw wrthrybuddion i driniaethau i'r wyneb â thrydan
- P26 cofnodi atebion eich cleient i'r cwestiynau'n gywir
- P27 cymryd y **camau angenrheidiol** mewn ymateb i unrhyw wrthrybuddion a nodwyd
- P28 cynnal prawf ar ddarn o groen yn gywir er mwyn penderfynu'n union beth yw ymateb croen y cleient i wres a symbylyddion pwysedd
- P29 argymhell triniaethau gwahanol sy'n addas ar gyfer cyflwr ac anghenion y cleient os oes gwrthrybuddion mewn perthynas â thriniaethau i'r wyneb â thrydan
- P30 sicrhau eich bod yn rhoi cyngor i'r cleient heb gyfeirio at gyflwr meddygol penodol a heb achosi unrhyw fraw a phryder diangen
- P31 esbonio'n eglur y gost a ragwelir, hyd tebygol y driniaeth, pa mor aml y bydd angen triniaethau a pha fath o driniaethau ydynt, a chytuno ar hyn
- P32 cytuno'n ysgrifenedig ar anghenion, disgwyliadau ac **amcanion triniaeth** y cleient, gan wneud yn siŵr eu bod yn realistig a bod modd eu cyflawni
- P33 sicrhau fod croen y cleient yn lân ac wedi'i baratoi i weddu i'r math o gyfarpar sydd i'w ddefnyddio
- P34 dewis **offer a chyfarpar** priodol a chynhyrchion cysylltiedig ar gyfer y driniaeth i'r wyneb, y math o groen sydd gan y cleient a'i gyflwr

Cynnal triniaethau i'r wyneb â thrydan

Rhaid i chi allu:

- P35 esbonio'n eglur y teimlad a grëir gan y cyfarpar a ddefnyddir
- P36 esbonio trefn y driniaeth i'r cleient mewn modd eglur a syml ar bob rhan o'r broses
- P37 defnyddio'r gosodiadau, y taenwr a'r ategolion cywir mewn modd diogel ar yr wyneb gydol y driniaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
- P38 addasu arddwysedd a hyd y driniaeth i weddu i'r **math o groen** wyneb sydd gan y cleient, a'i **gyflwr**
- P39 tynnu unrhyw bennau duon a milia, pan fo angen, gan beri cyn lleied o anghysur i'r cleient a chyn lleied o niwed i'r croen ag sy'n bosibl
- P40 cymryd camau cywirol yn ddiymdroi pe bai'r cleient yn profi anghysur neu wrtheffeithiau
- P41 rhoi cynnyrch ôl-driniaeth addas ar y man a driniwyd
- P42 sicrhau fod y canlyniad terfynol yn plesio'r cleient ac yn unol ag **amcanion y driniaeth** y cytunwyd arnynt

SKABTB14W

Rhoi triniaethau i'r wyneb â thrydan

Rhoi cyngor ôl-ofal

Rhaid i chi allu:

P43 rhoi **cyngor** ac argymhellion yn gywir ac yn adeiladol

P44 rhoi **cyngor** priodol i'ch cleientiaid sy'n benodol i'w hanghenion unigol

Gwybodaeth a dealltwriaeth*Mae angen i chi wybod a deall:***Gofynion y sefydliad a'r gofynion cyfreithiol**

- K1 eich cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth, safonau a chanllawiau iechyd a diogelwch presennol, e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall)
- K2 pwysigrwydd peidio â gwahaniaethu rhwng cleientiaid ag afiechydon ac anabledau, a pham (e.e. Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled)
- K3 yr oed y dosberthir unigolyn yn blentyn dan oed a sut y mae hyn yn gwahaniaethu'n genedlaethol
- K4 pam na ddylai plant dan oed dderbyn triniaethau heb gydsyniad gwybodus wedi'i lofnodi gan riant neu warcheidwad
- K5 pam ei bod yn bwysig, wrth drin plant dan 16 oed, i gael riant neu warcheidwad yn bresennol
- K6 arwyddocâd cyfreithiol cael cydsyniad gwybodus i'r driniaeth wedi'i arwyddo gan y cleient
- K7 gofynion yr awdurdod lleol a'r sefydliad ar gyfer cael gwared ar nodwyddau a gwydr a gwastraff peryglus
- K8 pwysigrwydd storio cofnodion cleientiaid yn gywir mewn perthynas â'r Ddeddf Gwarchod Data
- K9 sut i lenwi'r cofnodion cleientiaid a ddefnyddir yn eich sefydliad a phwysigrwydd cadw cofnodion o driniaethau a chael llofnodion cleientiaid, a'r rhesymau am hynny
- K10 eich cyfrifoldebau a'ch rhesymau am gynnal eich hylendid personol, eich dulliau gwarchod a'ch ymddangosiad eich hun yn unol â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
- K11 gofynion y sefydliad ar gyfer paratoi cleientiaid
- K12 amseroedd gwasanaeth eich sefydliad ar gyfer triniaethau i'r wyneb â thrydan
- K13 gofynion eich sefydliad a gofynion gwneuthurwyr ar gyfer yr ardal driniaeth, cynnal cyfarpar a threfnau glanhau cyfarpar

Sut i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol wrth roi triniaethau i'r wyneb â thrydan*Mae angen i chi wybod a deall:*

- K14 sut i baratoi'r ardal waith ar gyfer triniaethau i'r wyneb â thrydan
- K15 yr amgylchiadau amgylcheddol angenrheidiol ar gyfer triniaethau i'r wyneb â thrydan (gan gynnwys goleuo, gwresogi, awyru a chyfforddusrwydd cyffredinol) a pham fod y rhain yn bwysig
- K16 y math o gyfarpar gwarchod personol y dylid ei wisgo ar gyfer triniaethau micro-sgraffinio a pham (e.e. nitril di-bowdwr neu fenyg finyl di-bowdwr)
- K17 pwysigrwydd diheintio'r dwylo a'r rhesymau am hyn, a sut i wneud hyn yn effeithiol
- K18 sut i osod eich hun a'r cleient ar gyfer triniaethau i'r wyneb â thrydan

- K19 rhesymau dros gynnal gwedduster, preifatrwydd a chysur y cleient yn ystod y driniaeth
- K20 pam ei bod yn bwysig cynnal safonau hylendid, ac egwyddorion osgoi traws-heintiad
- K21 pam ei bod yn bwysig cadw llygad ar les y cleient yn rheolaidd

Ymgynghori â'r cleient

Mae angen i chi wybod a deall:

- K22 pam ei bod yn bwysig annog cleientiaid i ofyn cwestiynau a rhoi amser iddynt wneud hynny
- K23 sut i ddefnyddio technegau ymgynghori effeithiol wrth gyfathrebu â chleientiaid o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol, oed, anabledau a rhyw ar gyfer y driniaeth hon
- K24 pwysigrwydd holi cleientiaid er mwyn sefydlu a oes unrhyw wrthrybuddion i driniaethau i'r wyneb â thrydan
- K25 pam ei bod yn bwysig cofnodi atebion y cleient i'r cwestiynau
- K26 arwyddocâd cyfreithiol holi'r cleient a chofnodi atebion y cleient i'r cwestiynau
- K27 sut i roi cyngor ac argymhellion effeithiol i gleientiaid
- K28 sut i asesu ffyrfer cyhyrau'r wyneb yn weledol
- K29 sut i asesu pa fath o groen wyneb ydyw ac ym mha gyflwr y mae
- K30 pam ei bod yn bwysig annog cleientiaid yr amheuir fod ganddynt wrthrybuddion i ofyn am gyngor meddygol
- K31 pwysigrwydd peidio ag enwi gwrthrybuddion penodol wrth annog cleientiaid i ofyn am gyngor meddygol, a'r rhesymau am hynny
- K32 nodweddion gwahanol fathau o groen a chyflyrau croen
- K33 pwysigrwydd defnyddio triniaethau trydanol ar y cyd â thriniaethau eraill er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl
- K34 y mathau o driniaethau ellid eu rhoi ar y cyd â thriniaethau i'r wyneb â thrydan, neu wedi hynny
- K35 y mathau o driniaethau gwahanol ellid eu hargymell pe bai gwrthrybuddion i driniaethau trydanol

Anatomeg a ffisioleg

Mae angen i chi wybod a deall:

- K36 safle prif esgyrn y benglog a gwregys yr ysgwydd a swyddogaethau'r benglog
- K37 safleoedd a gweithrediadau cyhyrau'r wyneb (e.e. frontalis, sterno mastoid, platysma, orbicularis oris, masseter, orbicularis occuli, buccinator, zygomatic, digastric, corrugator, risorius)
- K38 diffiniad 'tarddiad' a mewniad' cyhyr
- K39 strwythur a swyddogaeth sylfaenol croen (h.y. haenau'r epidermis, yr haen isgroenol, y dermis, gan gynnwys meinweoedd cyswllt, terfynau nerfau, chwarennau chwys, chwarennau sebwm, capilarïau a blew)
- K40 nodweddion croen a'r mathau o groen sydd gan grwpiau cleient ethnig

- gwahanol
- K41 sut mae heneiddio'n effeithio ar y croen ac yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y driniaeth
 - K42 sut y mae'r system endocrinaidd yn effeithio ar y croen
 - K43 swyddogaeth gwaed ac egwyddorion cylchrediad, pwysedd gwaed a churiad
 - K44 strwythur a swyddogaeth y rhydweiliau, y gwythiennau a'r capilarïau yn yr wyneb
 - K45 strwythur a swyddogaeth y system lymffatig, gan gynnwys gwythiennau lymff, nodau a lymff yn yr wyneb a'r gwddf
 - K46 sut i adnabod cochni a'r hyn sy'n ei achosi
 - K47 egwyddorion cylchrediad lymff a'r rhyngweithio rhwng lymff a gwaed yn y system cylchrediad gwaed
 - K48 egwyddorion sylfaenol y brif system nerfol, pwyntiau ysgogol a'r gyfundrefn awtonomig
 - K49 effaith triniaeth drydanol ar gyhyrau'r wyneb, y croen, y systemau cylchredol a nerfol

Gwrthrybuddion a gwrtheffeithiau

Mae angen i chi wybod a deall:

- K50 y gwrthrybuddion hynny sy'n atal triniaeth i'r wyneb â thrydan, a pham (e.e. afiechydon heintus ar y croen, diffyg ar y system nerfol, clefyd/anhwylder ar y galon, yn cael triniaeth feddygol, rheolydd calon, meinwe craith diweddar, lymphiau a chwyddiadau na chawsant ddiagnosis, meddyginiaeth sy'n peri i'r croen deneuo neu fynd yn llidus, (e.e. steroidau, accutane, retinolau), sgraffinio diweddar)
- K51 y gwrthrybuddion hynny sy'n cyfyngu ar driniaeth, a pham (e.e. diabetes, epilepsi, pwysedd gwaed uchel/isel, micro-bigmentiad, hanes o thrombosis neu emboledd, botocs, llenwyddion croenol, pinnau neu blatiau metel, meddyginiaeth, beichiogrwydd, tyllau addurn, pryder, briwiau, crafiadau, cleisiau, pilio cemegol, IPL neu laser a diflewiad)
- K52 gwrtheffeithiau posibl all ddigwydd yn ystod y driniaeth a sut i ddelio â nhw (e.e. llosg galfanig, cleisio, cosi poenus, adwaith alergaidd, cochni eithafol, lludded cyhyrol, gor-bigmentiad/hypo-bigmentiad)

Offer, cyfarpar a chynhyrchion

Mae angen i chi wybod a deall:

- K53 sut i baratoi a defnyddio offer, cyfarpar a chynhyrchion ar gyfer rhoi triniaethau i'r wyneb â thrydan, gan gynnwys micro-fflaim
- K54 sut i ddefnyddio cynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau i'r wyneb â thrydan, a'u cyfyngiadau
- K55 dulliau diheintio, sterileiddio a chynnal cyfarpar
- K56 manteision ac effeithiau peiriannau therapi trydan sy'n cyfuno gwahanol gerhyntau, a'u heffeithiau
- K57 manteision cynhyrchion sydd ar gael ar gyfer triniaethau trydanol i'r

wyneb, a'u heffeithiau

- K58 y math o gerhyntau a gynhyrchir gan unedau amledd uchel uniongyrchol, unedau galfanig, unedau EMS, unedau micro-gerrynt a chyfarpar draenio lymffatig

Gwybodaeth sy'n benodol i'r driniaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K59 sut i ddewis, defnyddio ac addasu'r defnydd o gyfarpar trydanol ar gyfer yr wyneb i weddu i wahanol fathau o groen a chyflyrau croen ac amcanion triniaeth a pham
- K60 sut i ddefnyddio micro-fflaim i dynnu milia'n ddiogel
- K61 pwysigrwydd glanhau a pharatoi'r croen cyn ei drin
- K62 sut i gynnal a dehongli profion thermol, cyffyrddol a sensitifrwydd ar y croen
- K63 y peryglon sy'n gysylltiedig â thriniaethau i'r wyneb â thrydan yn y cwmpas
- K64 yr effeithiau corfforol a grëir drwy ddefnyddio'r cyfarpar yn y cwmpas
- K65 pam y dylid cynnal rhai triniaethau i'r wyneb mewn cyfeiriad arbennig
- K66 y mathau o gynhyrchion ôl-driniaeth sydd ar gael a pham eu bod yn angenrheidiol
- K67 sut i werthuso effeithiolrwydd triniaethau i'r wyneb
- K68 manteision cwrs o driniaeth
- K69 pam ei bod yn bwysig rhoi cyngor ôl-ofal

Cyngor ôl-ofal i gleientiaid

Mae angen i chi wybod a deall:

- K70 y ffactorau ffordd o fyw a newidiadau all fod eu hangen i wella effeithiolrwydd y driniaeth
- K71 cyfyngiadau ar ôl y driniaeth ac anghenion triniaeth yn y dyfodol
- K72 cynhyrchion i'w defnyddio gartref a fydd o fudd i'r cleient ac yn ei warchod, a'r rhai hynny y dylid eu hosgoi a pham
- K73 sut y gall arferion gofal croen presennol effeithio ar effeithiolrwydd y driniaeth
- K74 sut y gall newidiadau mewn arferion gofal croen wella effeithiolrwydd y driniaeth

Cwmpas/Ystod

Yr hyn sy'n rhaid i chi ei gynnwys

1. **Offer a chyfarpar yw:**
 - 1.1 uned amledd uchel uniongyrchol
 - 1.2 uned alfanig
 - 1.3 adfywiwr cyhyrau trydan
 - 1.4 uned micro-gerrynt
 - 1.5 cyfarpar draenio lymffatig
 - 1.6 uned micro-sgraffinio
 - 1.7 micro-fflaim

2. **Technegau ymgynghori yw:**
 - 2.1 holi
 - 2.2 gweledol
 - 2.3 â llaw
 - 2.4 cyfeirio at gofnodion y cleient

3. **Mathau o groen yw:**
 - 3.1 seimlyd
 - 3.2 sych
 - 3.3 cyfuniad o'r ddau

4. **Cyflyrau croen yw:**
 - 4.1 sensitif
 - 4.2 hŷn
 - 4.3 dadhydredig
 - 4.4 tagedig

5. Dylai **camau angenrheidiol** gynnwys:
 - 5.1 annog y cleient i holi am gyngor meddygol
 - 5.2 esbonio pam na ellir cynnal y driniaeth
 - 5.3 addasu'r driniaeth

6. **Amcanion y driniaeth yw:**
 - 6.1 gwella cyflwr y croen
 - 6.2 gwella'r amlinell a chyflwr y cyhyrau
 - 6.3 gwella ansawdd y croen

SKABTB14W

Rhoi triniaethau i'r wyneb â thrydan

7. Mae **cyngor** yn cynnwys:

- 7.1 osgoi gweithgareddau all achosi gwrtheffeithiau
- 7.2 anghenion triniaeth yn y dyfodol
- 7.3 addasu patrymau ffordd o fyw
- 7.4 cynhyrchion gofal cartref addas a sut i'w defnyddio

SKABTB14W

Rhoi triniaethau i'r wyneb â thrydan

Datblygwyd gan SkillsActive

Fersiwn rhif 1

Dyddiad cymeradwyo Tachwedd 2009

Dyddiad adolygu dangosol Tachwedd 2011

Dilysrwydd Cyfredol

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol Habia

RCU gwreiddiol BT B14

Galwedigaethau perthnasol Mentrau manwerthu a masnachol; Mentrau gwasanaethu; Galwedigaethau gwasanaeth personol; Trin gwallt a gwasanaethau cysylltiedig

Cyfes/Set Therapi Harddwch 2009

Geiriau Allweddol Rhoi triniaethau i'r wyneb â thrydan